

Ordinhad 15

Y Senedd: Datganiad o'r Prif Gyfrifoldebau

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.1

Dyddiad adolygu diwethaf: Mai 2020

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2022

ORDINHAD 15

Y SENEDD: DATGANIAD O'R PRIF GYFRIFOLDEBAU

Y Senedd fydd awdurdod academiaidd y Brifysgol. Bydd yn atebol i'r Cyngor, ac yn darparu sicrwydd i'r Cyngor, am: ansawdd academiaidd y Brifysgol wrth ddysgu ac ymchwilio, rheoli a chymeradwyo'r portffolio academiaidd, ac am reoli gwaith rheoleiddio buddiannau academiaidd y sefydliad.

Oni bai bod darpariaeth benodol fel arall, bydd penderfyniadau'r Senedd yn cael eu cymryd drwy fwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio.

Rhestr o'r Prif Gyfrifoldebau

Bydd gan y Senedd y pwerau canlynol, yn amodol ar y Siarter, Ystatudau ac Ordinhadau, ac yn ychwanegol at yr holl bwerau eraill a ddirprwyir iddi gan y Cyngor:

1. Naill ai ar ran y Brifysgol neu ar y cyd â sefydliadau eraill, cymeradwyo gwobrau, graddau, ac anrhydeddau academiaidd eraill i'r unigolion hynny sydd wedi astudio, ac wedi cwblhau'n llwyddiannus, gynllun astudio neu ymchwil a gymeradwywyd gan y Senedd, ac i unigolion sy'n dal anrhydeddau academiaidd o safon gyfartal neu debyg a roddwyd iddynt gan unrhyw goleg neu sefydliad addysg uwch arall.
2. Os bydd rheswm da, difeddiannu unrhyw unigolion o unrhyw anrhydeddau neu deitlau academiaidd a roddir iddynt gan y Brifysgol, a dirymu unrhyw radd neu wobr arall a roddwyd iddynt gan y Brifysgol, a thynnu oddi wrthynt bob braint gysylltiedig â hynny.
3. Cyflwyno am wobrau, graddau ac anrhydeddau academiaidd eraill mewn cyrff eraill yr unigolion hynny sydd, o dan arolygaeth y Brifysgol, wedi astudio ac wedi cwblhau yn llwyddiannus gynllun astudio neu ymchwil a gymeradwywyd gan y cyrff hynny.
4. Ystyried a chymeradwyo, lle y bo hynny'n briodol, holl gynigion ar gyfer cysylltiadau academiaidd y Brifysgol â sefydliadau neu gyrff eraill – gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu unrhyw gorff olynol – a, lle y bo'n briodol, rhoi gweithdrefnau addas ar waith i fonitro cysylltiadau o'r fath. Lle y bydd y cysylltiadau hynny yn golygu bod gwobrau, graddau ac anrhydeddau academiaidd eraill Prifysgol Aberystwyth yn cael eu rhoi gan sefydliad arall, bydd y Cyngor yn cael adroddiad, er gwybodaeth iddo, ynghylch y gymeradwyaeth a roddwyd gan y Senedd i gynigion o'r fath. Bydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn rhoi cyngor i'r Senedd ynghylch materion o'r fath lle y bydd ystyriaethau ariannol neu gyfreithiol arwyddocaol yn codi ohonynt.
5. Sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i fonitro a chloriannu perfformiad, effeithiolrwydd ac ansawdd academiaidd y Sefydliad yn ôl y cynlluniau a'r dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor.
6. Lle y bo'n angenrheidiol, archwilio i sefyllfa ymchwil, addysgu, staffio a gwaith cyffredinol unrhyw Athrofa, Adran ac unedau academiaidd arall yn y Brifysgol ac adolygu, diwygio, cyfeirio yn ôl, neu ailystyried unrhyw benderfyniad academiaidd a wnaed gan unrhyw Athrofa, Adran neu uned academiaidd yn y Brifysgol.
7. Gwneud argymelliadau i'r Cyngor gogyfer â chreu, diddymu a newid enw unedau academiaidd.
8. Bod yn gyfrifol am reoli'r portffolio a chyfarwyddo, rheoleiddio a rheoli holl waith dysgu, holl gynlluniau astudio ac arholiadau'r Brifysgol, a phennu'r amodau lle gellir derbyn unigolion i'r Brifysgol ac i unrhyw gynllun astudio neu ymchwil penodol.

9. Pennu'r amodau sydd yn gysylltiedig â pherfformiad academaidd ac astudio mewn modd priodol a fydd yn caniatáu i fyfyrwyr barhau â'u hastudiaethau yn y Brifysgol a'r camau a gymerir wrth ymdrin ag unrhyw fyfyrwr sy'n methu â bodloni'r arholwyr o'i gynnydd boddhaol mewn unrhyw arholiad yn y Brifysgol.
10. Rheoleiddio disgyblaeth myfyrwyr ac, yn amodol ar ddarpariaethau'r Ystatudau ac Ordinhadau, diarddel unrhyw fyfyrwr o unrhyw ddsbarth neu ddsbarthiadau a/neu eithrio unrhyw fyfyrwr o'r Brifysgol gyfan neu o ran ohoni neu ei chyffiniau.
11. Dyfarnu efrydiaethau, ysgoloriaethau, bwrsariaethau, gwobrau a grantiau eraill i annog gwaith astudio ac ymchwil.
12. Gwneud argymelliadau i'r Cyngor ynghylch dyfarnu Cymrodoriaethau ac anrhydeddau *honoris causa* eraill, ac ynghylch tynnu'r cyfryw yn ôl.
13. Pennu pa aelodau o staff fydd â statws academaidd.
14. Rhagnodi pa wisg academaidd a wisgir gan Swyddogion ac aelodau'r Brifysgol a'r achlysuron y cânt ei gwisgo.

Caiff y Senedd, fel y gwêl yn dda, ddirprwyo gwaith cyflawni unrhyw o'r swyddogaethau uchod i un neu ragor o is-bwyllgorau neu swyddogion, ar yr amod bod yr is-bwyllgorau perthnasol yn cyflwyno adroddiadau i'r Senedd yn disgrifio sut y mae'r swyddogaeth a ddirprwywyd wedi'i chyflawni.